

Gweithgareddau Tymor Yr Haf

Mae rhestr o'r digwyddiadau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer Tymor yr Haf wedi ei gyhoeddi'r wythnos yma. Byddwn yn parhau i'ch diweddarau gyda manylion fel y bydd y cynlluniau un cael eu gwneud.

Bydd e bost arall yn cael ei yrru Dydd Llun gyda dyddiadau digwyddiadau/dyddiau Hyfforddiant Mewn Swydd /diwedd tymor ayyb

****Sicrhau lle yn y Clwb Brecwast a Chlwb Wedi Ysgol ****

Mae bellach YN ORFODOL fod rhieni sydd angen defnyddio'r cyfleusterau yma yn sicrhau lle o leiaf 48 awr ymlaen llaw trwy Parentmail. I gadw lle ar gyfer Dydd Llun dylid sicrhau'r lle erbyn 12 o'r gloch y prynhawn Gwener blaenorol. GALLWN DDEFNYDDIO'R HAWL I WRTHOD DEFNYDD O'R GWASANAETH I RAI NAD YDYNT WEDI SICRHU LLE YMLAEN LLAW AR-LEIN.

Bydd hyn yn sicrhau fod ganddom y nifer cywir o staff ar gyfer pob swigen.

Mae'r broses ar gyfer Parentmail fel a ganlyn –

Accounts --- ASC/Breakfast Club ---Dewiswch 'day' ---Dewiswch amser – Sgrolwch i lawr ---Opsw'n i ailadrodd ar gyfer wythnosau eraill neu dewiswch 'continue' i barhau --- Adolygu-/Review— Cwblhau/Complete

Ni fydd yn bosibl defnyddio'r Clybiau os na fydd lle wedi ei sicrhau ymlaen llaw. NODWCH NA FYDD YN BOSIBL CANSLO AR Y DIWRNOD, LLE SYDD WEDI EI GADW GAN FOD TREFNIADAU STAFF A BWYD WEDI EU GWNEUD YMLAEN LLAW. PE BYDDECH WEDI GWNEUD TREFNIADAU I GADW LLE OND DDIM YN MYNYCHU YNA BYDD YN OFYNNOL ICHWI DALU AM Y GWASANAETH.

Gwisg Addysg Gorfforol

O Ddydd Llun Mai 17eg dylai disgyblion newid i'w gwisg Addysg Gorfforol er mwyn cymryd rhan yn y gwersi Addysg Gorfforol. Y wisg Addysg Gorfforol yw - siorts du a Chrys 'T' melyn swyddogol yr ysgol gydag esgidiau ymarfer (dylech brynu'r Crysau 'T' gan yr ysgol – gwelwch y cyfarwyddiadau isod ar sut i archebu gwisg ysgol).

Calan Mai a Sulgwyn

Bydd yr Ysgol ar gau Ddydd Llun Mai 3ydd gan ei bod yn Wyl Banc Calan Mai. Yn ogystal, bydd yr Ysgol ar gau yn ystod hanner tymor y Sulgwyn o Ddydd Llun Mai 31ain hyd Ddydd Gwener Mehefin 3ydd.

Lluniau Ysgol

Bydd **Tempest**, y cwmni ffotograffwyr yn yr Ysgol ar Fehefin 10fed a'r 11eg i dynnu lluniau unigolion. Bydd holl ganllawiau Covid yn cael eu dilyn. **Dylai'r rhieni sicrhau fod eu cyfeiriadau e bost a'u manylion cyswllt cywir gennym gan y bydd y broses yn ddi-bapur y tro hwn. Bydd rhieni yn derbyn dolen ar eu e bost ar gyfer prynu lluniau.**

Taliadau i'r Ysgol

Atgoffir rhieni y dylid talu yn llawn yn wythnosol am wasanaethau. Dylid talu am y Clwb Brecwast, Clwb Wedi Ysgol a Chinio Ysgol trwy gyfrwng Parentmail os nad yw talebau gofal plant yn cael eu defnyddio. Gallwch wneud taliadau trwy ddewis yr adran 'Accounts'.

Archebu Gwisg Ysgol – bydd archebion am Wisg Ysgol yn cael eu danfon i'r dosbarthiadau rhwng 8 o'r gloch a 8:30 o'r gloch y bore yn dilyn i'r archeb gael ei gwneud. Gallwch archebu Gwisg Ysgol ar-lein gan ddefnyddio Parentmail gan ddewis 'Payments- Shop'.

Dylid parhau i dalu ffioedd y Crèche/Grŵp Chwarae/ Ysgol Feithrin yn wythnosol trwy archeb sefydlog. Dylech gofio mewn achos o absenoldeb ,na sy'n gysylltiedig â gorfodaeth i gau'r Ysgol, y dylid talu am yr holl sesiynau sydd wedi eu cadw i'ch plentyn.

Gwaith Cartref a Sillafiadau

Mae Gwaith Cartref a phroffion sillafu wedi ail ddechrau ar gyfer y tymor yma. Mae'r tasgau a'r rhestr sillafiadau yn cael eu huwchlwytho bob wthnos i 'Google Classroom' eich plentyn.

Diolchwn ichwi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

R Williams Cyfarwyddwr Gweithredol